

30 Ionawr 2013

Cyfrifiad 2011: Datganiad canlyniadau 2.2 (Cymru a Lloegr)

Cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol allbynnau nesaf yr ail gyfres o ganlyniadau o Gyfrifiad 2011 ar 30 Ionawr 2013.

Cyhoeddwyd tablau o ystadegau ar gyfer lefelau daearyddol yr ardaloedd allbwn, wardiau, plwyfi, ac etholaethau seneddol (ar gyfer Cymru a Lloegr) yn y Datganiad hwn. Mae hynny'n golygu bod y data a gyhoeddwyd ynghynt ar lefel awdurdodau lleol (er enghraifft, cyfansoddiad cartrefi, tai, ethnigrwydd, crefydd, sgiliau yn y Gymraeg, statws iechyd, problemau iechyd hirdymor a chyflogaeth) ar gael ar lefel ddaearyddol isel erbyn hyn.

Dyma'r prif ganlyniadau ar gyfer Cymru.

Ar 27 Mawrth 2011, roedd gan Gymru 3.1 miliwn o breswylwyr arferol.

- nododd 97 y cant o breswylwyr arferol yng Nghymru a oedd yn dair oed a throsodd mai Cymraeg neu Saesneg oedd eu prif iaith yn 2011
- roedd gan 3 y cant o'r boblogaeth brif iaith heblaw am Gymraeg neu Saesneg ac roedd tri chwarter o'r 3 y cant hwnnw yn gallu siarad Cymraeg neu Saesneg yn dda
- nododd 19 y cant o breswylwyr arferol yng Nghymru a oedd yn dair oed a throsodd eu bod yn gallu siarad Cymru
- yn 2011, roedd yna lai o adrannau etholiadol gyda chyfrannau uchel o bobl oedd yn gallu siarad Cymru nag yn 2001
- ar ôl Cymraeg a Saesneg, y brif iaith fwyaf cyffredin yng Nghymru oedd Pwyleg (0.6 y cant, 17,000), ac yna Arabeg (0.2 y cant, 7,000)
- gostyngodd canran y preswylwyr arferol a oedd yn byw mewn cartref pâr priod un teulu lle'r oedd un aelod o'r cartref o leiaf o dan 65 oed, o 50 y cant (1.4 miliwn) yn 2001 i 44 y cant (1.3 miliwn) yn 2011
- cynyddodd canran y preswylwyr arferol a oedd yn byw mewn cartref pâr sy'n cyd-fyw lle'r oedd un aelod o'r cartref o leiaf o dan 65 oed, o naw y cant (258,000) yn 2001 i 12 y cant (367,000) yn 2011
- yn 2011 roedd 67 y cant o'r boblogaeth o oedran gweithio yn teithio i'r gwaith mewn car neu fan yng Nghymru

[Gwefan Office for National statistics: 2011 Census, Key Statistics and Quick Statistics for Electoral Divisions and Output Areas in Wales](#)

Mae yna hefyd tri [ONS analytical reports: General Health, Disability, and Families](#).

Cyswllt

Llinell Ymholiadau Cyffredinol

Ffôn: 029 2082 3332

E-bost: stats.popcensus@wales.gsi.gov.uk